YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

26ain Ionawr 23

Annwyl deuluoedd

**Gweithredu diwydiannol**

Fel y gwyddoch, mae yna nifer o anghydfodau parhaus rhwng llywodraethau'r DU a Chymru gydag ystod o undebau gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) wedi rhoi gwybod i awdurdodau lleol ac ysgolion am y gweithredu diwydiannol arfaethedig, a fydd yn digwydd yng Nghymru ar:

- Dydd Mercher 01.02.23
- Dydd Mawrth 14.02.23
- Dydd Mercher 15.03.23
- Dydd Iau 16.03.23

Mae'r gweithredu diwydiannol arfaethedig yn ganlyniad i anghydfodau cenedlaethol a'r DU yn hytrach nag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r ysgol. Fodd bynnag, bydd aelodau'r NEU yn streicio ar y dyddiadau hyn ac mae hyn yn golygu eu bod *yn cael gwared ar eu llafur*.

**Mae'n ddrwg gen i roi gwybod i chi yn dilyn cyfarfod gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr, bydd yr ysgol ar gau i bob dysgwr ar Ddydd Mercher 1 Chwefror 2023.** O ganlyniad, peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw. Ar hyn o bryd, ni allwn gadarnhau sefyllfa'r ysgol ar gyfer y dyddiadau eraill a restrir uchod. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r sefyllfa ac yn eich diweddaru gyda'r bwriad erbyn dim hwyrach na thri diwrnod gwaith cyn y dyddiadau penodedig.

Byddwch yn sicr, nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad hwn ac rydym wedi gofyn am gyngor Adnoddau Dynol a'r awdurdod lleol, ynghyd â'r holl undebau llafur a thrwy ymgynghori gydag ysgolion uwchradd lleol. Felly ar sail iechyd a diogelwch gyda chyfran uchel o staff yn absennol o'r gwaith, ni allwn agor yn ddiogel.

Yn ystod camau diwydiannol, mae cyflogwyr yn rhwym i reolau a rheoliadau penodol. Mae hyn yn golygu na chaniateir inni:

- Recriwtio staff asiantaeth i warchod yn lle'r staff hynny sydd ar goll
- Ailddosbarthu dyletswyddau'r staff hynny sy'n absennol ar staff sydd mewn undebau gwahanol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio dysgwyr a/neu baratoi gwaith wyneb yn wyneb ac yn rhithiol, y tu allan i'w horiau gwaith arferol
- Gwybod o flaen llaw union ffigwr staff sy'n cymryd rhan yn y gweithredu diwydiannol, i gynorthwyo gyda'n rheolaeth o darfu. Fodd bynnag, yn seiliedig â'r wybodaeth a rannwyd gan yr awdurdod lleol o aelodaeth NEU yn ein hysgol, mae nifer uchel o staff yn cael eu heffeithio

Am y rhesymau hyn, ni fydd y staff hynny a fydd yn mynychu'r gwaith ar y diwrnod hwn yn gallu darparu gwaith i'ch plentyn. Felly rwy'n awgrymu bod dysgwyr yn parhau â'u dysgu annibynnol (gwaith cartref), gan fanteisio ar gyfleoedd dysgu drwy wefan BBC Bitesize a/neu wefan CBAC ar gyfer y rhai sy'n astudio tuag at arholiadau.

Mae'r sir yn trefnu i ddarparu pecyn bwyd i bob dysgwr sydd yn hawlio prydau ysgol am ddim. I sicrhau bydd eich plentyn yn derbyn y bwyd hwn ac i leihau ar wastraff, mae'n rhaid i chi gofrestru i'w dderbyn drwy'r linc hwn **erbyn 10:00 dydd Mawrth 31.01.23**. https://forms.office.com/e/n5Kthkwc8F

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

Rwy'n ymddiheuro y bydd angen i chi wneud trefniadau amgen i'ch plentyn ar y diwrnod hwn ac y bydd tarfu i'w addysg. Rwy'n deall yn iawn y gallai'r sefyllfa hon fod yn rhwystredig, ond gofynnaf i bob un ohonom fel Tîm Llan barhau i drin ein gilydd gyda'r parch mwyaf.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag undebau a'r awdurdod lleol, i'ch diweddaru gyda'r sefyllfa a'ch hysbysu pan fyddwn wedi cael gwybod am unrhyw newidiadau.

Yn gywir,
Meurig Jones
Prifathro

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

26th January 23

Dear families,

**Industrial Action**

As you will be aware, there are a number of ongoing disputes between the UK and Welsh governments and a range of public service unions.

The National Education Union (NEU) have notified local authorities and schools of their intended industrial action, which will take place in Wales on:

- Wednesday 01.02.23
- Tuesday 14.02.23
- Wednesday 15.03.23
- Thursday 16.03.23

The planned industrial action is a result of national and UK disputes as opposed to any issues relating to the school. However, NEU members will strike on these dates and this means that they are *removing their labour*.

**I regret to inform you that following a meeting with the Chair of Governors, the school will be closed to all learners on Wednesday 1st February 2023.** Consequently, please do not send your child to school on that day. At this stage, we are unable to confirm the school's position for the other dates listed above. However, we will review the situation and update you with the intention by no later than three working days in advance of the specified dates.

Please be assured, this decision has not been taken lightly and we have sought HR and local authority advice, along with all trade unions and consulted with all local secondary schools. Therefore, on health and safety grounds with a large proportion of staff being absent from work, we cannot open safely.

During industrial actions, employers are bound to specific rules and regulations. This means that on these days, we are not permitted to:

- Recruit agency staff to substitute those staff missing
- Redistribute the duties of those staff absent on staff who are in different unions. This includes supervision of learners and/or preparation of work both in person and remotely, outside of their normal working hours
- Know in advance the exact figure of staff who are participating in the industrial action, to assist with our management of disruption. However, based on information share by the local authority of NEU membership at our school, there is a high number of staff affected

For these reasons, those staff who will attend work on this day will not be able to provide work for your child. I therefore suggest that learners continue with independent learning, making use of learning opportunities via the BBC Bitesize website and/or the WJEC website for those studying towards exams.

The county is arranging that all learners who are eligible for free school meals is offered a packed lunch. To ensure that your child receives this and to reduce waste, you are required to register using this form **before 10:00 on Tuesday 31.01.23**. https://forms.office.com/e/n5Kthkwc8F

I apologise that you will need to make alternative arrangements for your child on this day and that there will be disruption to their education. I fully understand this situation may be frustrating, but I ask that we all as Team Llan continue to treat each other with the utmost respect.

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

We will continue to work closely with unions and the local authority, to keep you up-to-date with the situation and notify you when we have been informed of any changes.

Yn gywir,
Meurig Jones
Headteacher